| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe Ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, cyflwynwyd diweddariad ar y trafodaethau am gyflwyno gwe-ddarlledu i'r Cyngor. Penderfyniad y pwyllgor oedd " parhau i gefnogi'r bwriad i gyflwyno'r drefn o we- ddarlledu ar yr amod bod y gyllideb yn caniatau, gan ofyn am adroddiad yn ol i'r cyfarfod nesaf ar raglen waith manwl ar gyfer ei gyflwyno."

2. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r drefn a hefyd adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y trefniadau ariannu.

**Y RHAGLEN WAITH**

3. Dyma'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn:-

| **DYDDIAD** | **GWEITHGAREDD** |
|---|---|
| Diwedd Mawrth 2014 | Derbyn tendrau terfynol ar gyfer cynigion i ddarparu gwasanaeth gwe-ddarlledu i'r Cyngor |
| Diwedd Ebrill, 2014 | Dyfarnu cytundeb dwy flynedd i'r cwmni llwyddiannus |
| Mai i Medi 2014 | Cyfnod o dreialu i gynnwys:-<br>• Arddangosiad o'r drefn i aelodau'r pwyllgor ac aelodau eraill<br>• Sesiynau hyfforddi i aelodau a swyddogion ar y gyfundrefn<br>• Recordio cyfarfodydd heb eu darlledu eto er mwyn ei brofi |
| Medi i Rhagfyr 2014 | Darlledu cyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon) |
| Ionawr 2015 ymlaen | Gweithredu trefn llawn o ddarlledu'r cyfarfodydd a ganlyn yn rheolaidd:-<br>• Cyngor llawn<br>• Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon)<br>Adolygu rhaglenni gwaith y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu i ddefnyddio'r gweddill o oriau gwe-ddarlledu'r Cyngor<br>Ystyried hefyd a oes materion penodol y mae'r Cyngor am eu gwe-ddarlledu – ee negeseuon ar faterion o bwys |
| Medi 2015 | Cychwyn proses o adolygu'r defnydd o'r gwasanaeth er mwyn dechrau asesu ei barhad ar derfyn y cytundeb presennol |

DS Dylid nodi, yn ystod y cyfnod hyn, ein bod yn mynd i ddechrau cynnig y cyfle i aelodau fynychu rhai cyfarfodydd pwyllgor “o bell” trwy gyswllt fideo rhwng cyfarfodydd yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda a swyddfeydd Dolgellau a Phwllheli

**CYLLIDO’R DATBLYGIAD**

4. Mae Grant Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer dwy flynedd y cytundeb ond rydym hefyd wedi adnabod cyllideb y gellir ei ddefnyddio ar gyfer parhau gyda’r gwasanaeth os y penderfynnir ei fod yn cynnig gwerth am arian ar ôl ei adolygu

**YMATEB**

5. Gwahoddir ymateb y Pwyllgor i’r cynigion o ran y rhaglen waith a hefyd y trefniadau ariannu.